



4

Negesydd

Rhif 25

Hydref 2022

www.ubc.cymru

Gwresogi'r capel - neu'r
eglwys?

Dechrau newydd yn
Nolgellau

A mwy...



Croeso...

Golygyddol	2
Nodiadau Cenhadol	3
Cenhadaeth Dolgellau	4
Gofod i'r eglwys a'r gymuned	5
Newyddion Cymru	6
Newyddion y Byd	7
Dod i nabod: Janet Matthews	8

Ar ddechrau tymor newydd testun diolch yw gweld gweithgareddau'r Undeb yn ailgychwyn ac yn ddiweddar cynhaliwyd Cynhadledd Cenhadol y Senana yn Llambed, Cyfarfodydd Blynnyddol Mudiad y Chwiorydd yng Nghaerdydd, ynghyd â chyfarfod cyntaf y Rhaglen Genhadol 'Gweithredu'.

At hynny, dyma'r adeg o'r flwyddyn pan fydd gweinidogion newydd yn cael eu hordeinio a'u sefydlu ac hyfrydwch eleni yw croesawu i'n rhengoedd Neil Warburton, Abergwaun; Richard Miles, Upper Troisant; Tomos Roberts-Young, Tonna a Misha Pedersen, Y Bontnewydd ar Wy. Yn ogystal, sefydlwyd y Parchedigion Rosa Hunt yn Eglwys y Tabernacl, Caerdydd ac Andrew Barker yn Mount Pleasant, y Coed Duon a chroesawyd Danni Worley i Ddolgellau.

Ar yr un pryd dymunwn yn dda i'n myfyrwyr sydd wedi dechrau ar flwyddyn newydd academiaidd: sef Rebecca Smethurst, Katie Collins, Gruffudd Jenkins, Dale Norman a Hannah Smethurst.

Diolchwn hefyd am y chwech o weithwyr Cristnogol o dramor sydd wedi ymdeimlo â'r alwad i symud i Gymru er mwyn cynorthwyo ein heglwysi, sef Nana a Sungsu Paek, Anna Ketchum, Linda a Jeff Kim a Phil Wyman.

Nid yn unig y mae Duw yn parhau i alw ond mae pobl yn parhau i ymateb. Er bod y cydestun Cristnogol wedi newid yn ddifawr dros y blynnyddoedd diwethaf a bod yn rhaid i ni ailystyried felly ein dulliau o genhadu ac o gyflwyno'r ffydd Gristnogol, mae yna un peth sydd heb newid ers dyddiau'r Arglwydd Iesu. Hynny yw, beth bynnag yw'r cydestun cymdeithasol a'r hinsawdd grefyddol, angen pennaf yr Eglwys ym mhob cyfnod yw pobl sydd yn caru'r Iesu ac yn barod i'w ddilyn.

Deisyfwn fendith Duw ar yr holl ddechreuadau newydd gan ddiolch am bawb sydd yn caru'r Arglwydd ac yn rhoi yn hael o'u hamser a'u doniau er mwyn ei Enw Efi!

Judith Morris, Ysgrifenydd Cyffredinol



Argyfwng ynni - cau'r capel neu gau'r eglwys?

Un o'r penderfyniadau mwyaf anodd y mae'n rhaid i unrhyw grŵp bach o aelodau ei wneud yw dirlad a yw'r amser wedi dod i gau'r capel. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae Covid-19 wedi taro llawer o'n heglwysy'n galed ac wedi amharu ar batrymau addoli. Mae rhai wedi dysgu sut i gynnal cyfarfodydd dros Zoom, cau'r capel dros dro, cwrdd tu allan, eistedd 2 fetr ar wahân, peidio â chanu, canu gyda mygydau, peidio â chymryd casgliad ac ati. Mae hynny'n llawer o newid i bobl sydd ddim yn hoffi newid!

Yna daw'r cyllid. Mae'r uchod i gyd wedi dod â phwysau ariannol ychwanegol ac mae'n ymddangos yn debygol o fynd yn anoddach fyth y gaeaf hwn. Mae costau ynni gwresogi adeiladau capeli mawr gwag gyda'u hen systemau gwresogi aneffeithlon yn mynd i godi'n sylweddol ac efallai y bydd yr un cwestiynau hynny yn dychwelyd; sut mae parhau i gyfarfod? Efallai bydd rhai yn penderfynu dweud y byddwn ni'n rhoi blancedi allan yn lle mygydau wrth y drws! Ond mae mesurau ymarferol y gallwn eu cymryd a all helpu:

- Cwrdd yn y festri
- Cwrdd mewn tai/ caffi/ gofod cymunedol arall
- Cymryd darlleniadau meter cyn Hydref 1af
- Gofyn i'r cwmni ynni am ragfynegiad o'ch bil dros y gaeaf
- Ystyried cwrdd gydag eglwysy eraill lleol er mwyn lleihau'r costau

Er y byddai'n hawdd teimlo bod hyn i gyd yn ormod, efallai bod yr argyfwng ynni hwn yn gyfle arall i ail-ddychmygu a chofio'r ffordd y mae gan Fedyddwyr fel anghydfurfwyr y rhyddid i weithredu fel eglwys. Byddai eglwysy'r Testament Newydd yn cyfarfod mewn cartrefi ac ar aelwydydd. Fe ymgasglon nhw o gwmpas byrddau ar gyfer cymdeithas a bwyd, gan dorri bara a rhannu eu bywydau. Daethon nhw o hyd i ffyrdd o addoli o gwmpas yr Ysgrythur, gweddiâu, caneuon – fel yr arweiniodd yr Ysbryd.

Llawer o leisiau, nid un yn unig. Fel Bedyddwyr rydym yn rhannu'r credoau hyn:

- Eglwys yw pobl Dduw, nid yr adeilad.
- Mae'r eglwys yn ymgynnull – hyd yn oed gyda 'dau neu dri' mae Iesu wedi addo y bydd yn bresenol.
- Eglwys sy'n addoli – gall hynny fod yn wahanol i frechdan emyn / gweddi!
- Eglwys o gydweinigdogion lle mae pob un ohonom yn cael ein galw i wasanaethu.

Mae'n werth nodi bod yr eglwys fwyaf yn y byd heddiw yn Tsieina. Mewn gwlad lle mae rhyddid crefyddol yn cael ei gyfyngu yn fwy nag y gallwn ni ei ddychmygu, mae'r eglwys hon nid yn unig wedi goroesi ond wedi tyfu (yn ôl amcangyfrifon diweddar mae tua 100 miliwn o gredinwyr - 22 miliwn yn fwy yn y degawd diwethaf). Mae'r rhan fwyaf o'r eglwysy hyn yn cwrdd mewn cartrefi- a does dim rhaid felly delio â chostau gwresogi hen adeiladau mawr, ond gallant ganolbwyntio ar y prif beth yn lle.

Yn ystod y cwrs 'Darganfod' eleni fe'm trawyd gan frawddeg yn y llyfr yr oeddem yn ei ddilyn gan David Fitch o'r enw 'Faithful Presence' – 'Wrth i'r hen fyd Cristnogol ildio ei le a'r hen ffyrdd fethu â dod ag aelodau newydd i mewn i'r eglwys, a'n hadnoddau ar gyfer gwneud daioni yn y byd yn lleihau, nid oes gennym ddewis ond arwain ein cymunedau i fod yn bresennol i Grist ym mhob cylch o'n bywydau. Does gennym ni ddim dewis ond ymarfer ei Deyrnas fel ffordd gyfan o fyw.' (t.183). Os yw'r ddwy flynedd ddiwethaf hyn wedi dysgu unrhyw beth i ni, mae wedi ein hannog i feddwl pam mae cyfarfod fel yr eglwys yn dal i fod yn bwysig a sut y gallwn ni fod yn eglwys heddiw. Os nad yw'r ffordd rydyn ni wedi bod yn gwneud eglwys wedi helpu aelodau newydd i ddarganfod Iesu - efallai ei bod hi'n bryd meddwl eto am y ffordd rydyn ni'n gwneud eglwys? Mae bob amser yn drist pan fydd yn rhaid i gapel ystyried cau ond hir y parhao'r eglwys.

Simeon Baker, Cyfarwyddwr Cenhadaeth



'Dyma yw gwaith ein bywyd nawr,' myfyria Danni wrth i ni eistedd mewn caffi oddi ar y sgwâr canolog yn Nolgellau. Roedd Danni, sy'n weinidog Bedyddiedig -, ei gŵr a dau blentyn oed cynradd newydd symud i'r dref yn gynharach yn yr haf, ac roedd y plant yn agosáu at ddiwedd eu hwythnos gyntaf yn Ysgol Bro Idris. Ond does dim eglwys Fedyddiedig yn Nolgellau ar hyn o bryd, ers i gapel Jwda gau tair blynedd yn ôl. 'Ond rwy'n credu bod Duw yn ymrwymedig i'r lle hwn a'i bobl, a dyna yw ein galwad ni hefyd.' Mae perthynas Danni a'i gŵr â Dolgellau wedi ei blethu'n rhyfedd â'u cerddeddiad gyda Iesu. Daeth y ddau yn Gristnogion fel oedolion, wedi i Danni gael cefndir mewn arferion 'New Age'. 'Roeddwn i wedi bod yn annibynnol, mor hunangynhaliol fel person – ac yna fe gawson ni argyfwng dramatig fel teulu, ac fe ymyrodd Duw mewn gwirionedd mewn ffordd wyrthiol. Yn fuan ar ôl hynny des i i adnabod Iesu, ac roedd cwpl Cristnogol yr oeddwn wedi dechrau dod i nabod wedi cynnig gwyliau i ni fel teulu yn eu bwthyn yn Nolgellau. Roedd e wir yn rhodd mor hael, ac fe gyfrannodd i'n hadferiad ni fel teulu – eu caredigrwydd, yr amser i ffwrdd, a phrydferthwch y lle ei hun wrth gwrs. A dyma ni'n dod yn ôl dro ar ôl tro – heb sylweddoli ar y dechrau y byddai Duw wedyn yn ein galw ni i symud a gweinidogaethu yma!' Fel nifer o bobl yn y weinidogaeth lawn amser, roedd Danni'n amharod i ddechrau pan glywodd yr alwad i fod yn weinidog. Ond wrth iddi ddechrau ar ei hyfforddiant a gwasanaethu fel myfyriwr gweinidogaethol yn nwyrain Lloegr lle'r oeddent yn byw, sylweddolodd yn raddol nad gweinidogaethu yno oedd bwriad Duw iddi. Roedden nhw'n dal i ddod yn ôl tua'r gorllewin i Gymru ac i Dolgellau, ac mae Danni'n cofio'n glir sut y byddai ei gŵr – nad oedd eto'n grediniwr – yn ebychu wrth iddyn nhw yrru dros y bwlch i Wynedd 'os mai Duw wnaeth greu hyn, mae e'n berson cwbl frawychus ac hefyd cwbl gyffrous!'

Pan ddaeth i ffydd ei hun, ac yn dilyn proses hir o ddirnadaeth gyda Undeb Bedyddwyr Cymru ynghyd â chyfle annisgwyl yn codi i'r teulu i allu prynu tŷ yn y dref, gwelsant sut roedd y darnau'n disgyn i'w lle. Meddai Hazel Williams-Jones, Arolygwr Cymanfa Dinbych, Fflint a Meirion 'Mae'r gymanfa yn falch bod y dystiolaeth Fedyddiedig a fu yn y dref yn mynd i barhau ar ei newydd wedd', ac meddai Cath Williams, Cadeirydd y Gymanfa, 'Rydym i gyd yng Nghymanfa Dinbych, Fflint a Meirion yn anfon ein dymuniadau gorau at y teulu ar gychwyn taith newydd a chyffrous yn ei hanes. Mae drysau nifer o eglwysi wedi cau yn ddiweddar a hynny yn ein gwneud yn drist, ond gyda'r fenter hon mae cil y drws newydd yn agor a chyfleoedd newydd yn dod yn sgîl hynny fe obeithiwn.' Er bod ganddi bedair blynedd o brofiad bellach fel gweinidog eglwys o dan hyfforddiant yn Swydd Gaergrawnt a Swydd Bedford, mae Danni yn esbonio nad yw hi'n edrych i blannu cynulleidfâ eglwys yn y dref ar frys. 'Dwi'n weinidog gyda'r Bedyddwyr, a dwi'n hapus iawn i ddweud hynny wrth bobl. Ond am y tro, mae hynny'n golygu gweinidogaeth lletygarwch; rhoi a derbyn, gwasanaethu pobl yn y dre wrth i mi ddod i'w nabad a gwrando arnynt. Byddaf yn gweddio drostyn nhw – a phan fydd pobl eisiau gwybod, byddaf yn dweud wrthyn nhw am Iesu.' Fel cymuned Gymraeg yn bennaf, beth mae hynny hefyd yn ei olygu i Danni a'r teulu cyfan yw'r angen i ddysgu'r iaith yn rhugl, a dod i nabod y diwylliant hwn sydd mewn gwirionedd yn newydd iddyn. 'Mae'n gymaint o fraint,' meddai Danni â'i llygaid yn disgleirio, 'a chredaf y daw'r amser pan fydd i'r dref hon unwaith eto enw da am ei bywyd ysbrydol yng Nghrist!'



Gofod i'r eglwys *a'r gymuned...*

'Mae hi wedi bod yn daith ffydd go iawn i ni fel eglwys,' eglura Peter wrth i ni gerdded trwy adeilad newydd yr eglwys sydd yn cael ei godi yng nghanol tref Penfro, 'ond rydym yn gweddio y bydd yn cael ei gwblhau, rhywsut, o fewn y flwyddyn nesaf.' Grŵp o ryw wyth deg o Gristnogion o bob oed sy'n byw yn ac o amgylch Penfro yw Eglwys y Bedyddwyr Mount Pleasant, ac maen nhw bellach wedi bod yn cwrdd mewn ysgol leol am bron i ddegawd. Ond nawr mae benthyciad gan Gronfa Adeiladu Bedyddiedig Cymru wedi galluogi'r prosiect adeiladu i gymryd cam mawr ymlaen, a dyma ni'n ymweld i gael cip ar y to newydd yn ei le.

'Fe werthon ni'r hen gapel yn y dref yn y pen draw oherwydd nad oedd modd i ni gael y caniatâd angenrheidiol i'w addasu a'i wneud yn fwy addas ar gyfer anghenion cyfoes. Doedden ni ddim yn siŵr am y peth ac roedden ni'n gweddio llawer yn ei gylch, ond dangosodd Duw i ni yn glir beth oedd y ffordd ymlaen pan werthon ni'r mans am £175k a daeth y safle yma ar werth am yr union swm hwnnw – ac yna dywedodd y perchennog wrthym ei fod am iddo gael ei werthu i ni fel eglwys!' Ers hynny, mae'r prosiect adeiladu wedi symud ymlaen gam wrth gam, ac eithrio dau fenthyciad gan Gronfa Adeiladu Bedyddiedig Cymru, mae'r arian wedi dod oddi mewn i'r eglwys ei hun. Dros y bum mlynedd diwethaf, ni fu gweinidog gan yr eglwys ond mae wedi tyfu a chadw'n driw i'w gweledigaeth wrth i'r aelodau roi yn hael i weld y prosiect adeiladu hwn yn dwyn ffrwyth.

"Efallai gall rhan o'r adeilad gael ei ddefnyddio fel canolfan chwarae ganol wythnos i blant o'r gymuned, neu yn gaffi neu ryw fath arall o fenter gymdeithasol yn y dref, dydyn ni ddim yn gwbl siŵr eto. Ond rydyn ni eisiau i'r adeilad gael ei ddefnyddio'n dda ac i bobl y tu allan i'r eglwys elwa o hyn

hefyd, felly rydyn ni'n dal i weddio am hynny ar hyn o bryd – pa ddrysau fydd Duw'n agor, a beth yw'r anghenion. Mae gennym ddau i dri chan mil i fynd er mwyn talu am y gwaith mewnol a'r ffitiadau, felly cawn weld!'


Wrth i ni gerdded drwy'r adeilad ac i'r capel, mae'r to ar ffurf ton yn y môr eisoes yn creu ymdeimlad o ysgafnder a fydd yn gwneud hyn yn ofod croesawgar i'r eglwys gyfarfod ynddo. 'Dyma'r union fath o beth mae Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru yn bodoli i'w gefnogi', meddai Hugh Tribe, un o'i Gyfarwyddwyr. 'Rydym yn gorff hyd braich o'r Undeb a'i bwrpas yw cefnogi tystiolaeth y Bedyddwyr ledled Cymru, ac yn enwedig ar ochr cyfalaf ac adeiladau.'

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r benthyciadau cyfalaf y maent wedi'u rhoi i eglwysi wedi cynnwys prynu mans, gwaith cynnal a chadw sydd wir angen megis ailosod ffenestri, sicrhau mynediad i bobl anabl, gosod cyfleusterau toiledau modern a mwy.

'Rydym yn falch iawn o helpu i gefnogi tystiolaeth yr eglwys yn y dref farchnad allweddol hon,' meddai Hugh, 'ac os yw eglwysi eraill am wneud cais am fenthyciad gennym, mae croeso mawr iddynt wneud hynny drwy gysylltu â swyddfa UBC'

Yn ôl ym Mhenfro, mae'n galonogol meddwl bod Mount Pleasant wedi bodoli fel eglwys ers 1830, ac wedi gallu tystio i ffyddlondeb Duw ar hyd y blynyddoedd. Mae demograffeg yr eglwys wedi bod yn newid yn araf i fod yn gynulleidfa iau o ran oedran a dros y blynyddoedd diwethaf maent wedi gweld oedolion ifanc yn cael eu bedyddio, teuluoedd newydd yn mynychu'r eglwys a gwaith Ysgol Sul sy'n tyfu. "Rydym i gyd yn ddisgwyllgar ac yn gyffrous wrth i ni ddirnad ewyllys Duw ar gyfer y bennod nesaf," meddai Peter.

Os hoffech fel eglwys wneud benthyciad o'r Gronfa Adeiladu am fenthyciadau, mae croeso i chi wneud hynny drwy gysylltu â swyddfa UBC am sgwrs ar unrhyw adeg.



Newyddion o blith....

Undeb Bedyddwyr Cymru

Yn ôl i'r Coed Duon



'Does dim ffordd y gallwn ni fynd yn ôl!' Dyna feddyliai Andy Baker, a aned yn y Coed Duon a'i fagu drwy ei arddegau yn eglwys Mt Pleasant yn y dref. Wedi deng mlynedd ar hugain yn y weinidogaeth yn Lloegr, teimlai ef a'i wraig alwad yn ôl i Dde Cymru a dyma nhw'n dechrau ystyried opsiynau. Fe wnaeth sawl drws gau wrth iddynt geisio dirnad ewyllys Duw ond wedi iddynt gyfarfod gydag arweinyddiaeth Mt Pleasant, syrthiodd pob rhwystr i ffwrdd nes i'r syniad deimlo fel un da i'r ddwy ochr.

'Dwi'n llawn cyffro am y peth nawr', meddai Andy, a gafodd ei sefydlu ar ddydd Sadwrn 3 Medi. 'Yn amlwg mae gen i lawer o ddal i fyny i'w wneud â phobl yn yr eglwys a'r dref ar lefel bersonol,' ac mae hynny yn plethu'n dachus gyda'i weledigaeth ar gyfer y cam nesaf ym mywyd yr eglwys; ail-greu cymuned. "Mae Covid wedi golygu bod angen llawer o ailgysylltu o hyd, ac mae hynny hefyd yn wir am ein cysylltiadau gyda'r gymuned. Mae angen i ni droi ein llygaid tuag allan, a threulio llai o amser efallai mewn cyfarfodydd eglwysig mewnol', meddai Andy. 'Dwi wrth fy modd yn cyflwyno pobl i Iesu, a byddwn i wrth fy modd yn ein gweld ni fel eglwys yn gwneud hynny'n naturiol.'

Mae Andy'n dweud wrthym bod pobl yn meddwl amdano fel un sy'n dwli ar chwaraeon pan na fydd yn bugeilio. Felly mae'n briodol, ar ôl i ni siarad, ei fod ar ei ffordd i chwarae rownd o golff gyda rhywun ar gyron cymuned yr eglwys; i adeiladu'r berthynas honno, ac efallai ymhen amser cyflwyno'r cyfaill i Iesu.

Bedydd, Bendith a Barbeciw!

'Nôl ar ddechrau'r haf, ar ddiwrnod braf bu Oedfa Fedydd gyntaf gweinidog newydd Ebeneser Dyfed, Sian Elin. Y tri a fedyddiwyd oedd Fflur, Steffan a Dylan. Doedd dim amheuaeth bod yna lawenydd ac achos i ddathlu am fod y tri wedi penderfynu cael eu trochi yn y dŵr ac wedyn cael eu derbyn fel aelodau yn Ebeneser. Meddai Fflur, 'roedd y profiad o gael fy medyddio yn un eithaf unigryw. Dyw geiriau ddim yn ddigon i ddisgrifio'r profiad! Doedd dim byd fel ei debyg. Roedd hi mor braf gallu rhannu'r diwrnod hwnnw gydag aelodau selog a ffyddlon y capel, ffrindiau a theulu yn ogystal â chenhedlaeth nesaf aelodau'r capel. Roedd yn ddiwrnod emosiynol i'r Gweinidog hefyd am ei bod hi'n bedyddio ei mab a'i gŵr.

Ar y Sul canlynol roedd yna reswm arall am ddathliad mawr yn Ebeneser wrth i'r eglwys ddod at ei gilydd i gyflwyno plentyn i gael ei fendithio. Cyflwynwyd Ffion Cadi i'r gynulleidfa i ddiolch i Dduw amdani a gofyn am ei fendith ar yr un fach. Rhannwyd hanes Arch Noa a'r enfys gan y Gweinidog; addewid Duw o gychwyn newydd.

Ac ar ddiwedd y mis daeth bws o Ofalaeth Bedyddwyr Gogledd Teifi i ymuno yn yr oedfa ac hefyd yn y Parti Haf wnaeth ddilyn. Er gwaetha'r glaw, fe wnaeth pawb fwynhau'r cymdeithasu yn y festri a rhanodd Sian Elin neges am y teimlad sy gan lawer ohonom ein bod ni ddim yn ddigon da. Ond trwy ymddiried yn ein Harglwydd rydym yn gwybod nad yw hynny o bwys am fod Duw yn ein caru bob amser.

Cymerodd Sian Elin y cyfle i ddiolch i'r Ofalaeth am bob cymorth mae wedi derbyn yn ystod ei blwyddyn gyntaf oll fel Gweinidog. 'Does dim amheuaeth bod yna lawer wedi digwydd, bod yna sawl deigrin a llawer iawn o chwerthin wedi bod. Ond drwy gymorth Duw rydym yn edrych ymlaen at y dyfodol drwy weithio fel tîm i gryfhau achos Iesu Grist yn ein hardal.'



Pennod newydd yn Sir Frycheiniog

Bydd Paul a Robyn Smethurst yn symud o eglwys Hope Gobaith yn Llanelli i Sir Frycheiniog, lle fydd Paul yn gwasanaethu fel Gweinidog Cenhadol y Gymanfa a Robyn yn cynllunio gweithio ochr yn ochr ag ef. 'Mae llawer o bethau sy'n anhysbys,' meddai Paul, 'ond mae'n gyffrous cydnabod yr hyn mae Duw yn ei wneud yn y Gymanfa, er mor fach yw sefyllfa yr eglwys. Rydyn ni'n agored i'w arweiniad!' Nododd y Parch Anne Roberts, Ysgrifennydd y Gymanfa, pa mor galonogol ydyn nhw 'bod Duw wedi galw rhywun newydd atom – mae Sir Frycheiniog ar agenda Duw o hyd!' Mae'r Smethursts rhwng dwy stôl ar hyn o bryd wrth iddyn nhw chwilio am dŷ yn y lle iawn yn yr ardal. Gweddïwch drostyn nhw yn hynny.

Affganistan - flwyddyn yn ddiweddarach

Bu sawl trychineb dros y flwyddyn ddiwethaf i Affganistan. Mae'r argyfwng costau byw, newid dramatig mewn llywodraeth a thrychinebau naturiol i gyd yn syrthio ar ben cenedl sydd eisoes yn fregus wedi arwain at newid mawr ym mywydau pobl gyffredin. Dywedodd gweithiwr BMS, Ruby* rywbeth am rai o'r gwahaniaethau y mae hi wedi'u gweld wrth fyw yn y wlad dros y flwyddyn ddiwethaf.

"Mae'n llawer distawach. Llai o bobl ar y stryd yn heidio o gwmpas," meddai. Ond er hyn, mae Ruby'n gwybod bod cymaint o gymunedau sydd angen help. Mae'r newid yn y llywodraeth yn golygu bod yn rhaid i fenywod yn Affganistan nawr fod yn llawer mwy gofalus gyda'r dillad y maen nhw'n eu gwisgo. "Mae'n rhaid i ni wisgo mwy o haenau nawr nag oedden ni erioed wedi arfer gwneud," meddai Ruby. "Roedden ni'n arfer gallu jest wisgo ffrogiau hir gyda throwsus... ond nawr ry'n ni'n gorfod gwisgo siacedi hyd y llawr neu lapio dillad o'n pennau i lawr i'n traed." Mae menywod nawr yn gorfod cario gwaith papur gyda nhw i brofi eu bod yn cael gweithio, a bydd rhai awdurdodau ddim yn gadael i fenywod fynd i'r gwaith o gwbl. Mae hyn i gyd yn atgyfnerthiad ymhellach i Ruby a'i thim pa mor hanfodol yw parhau i weithio gyda menywod a'u grymuso lle gallant, er gwaethaf y cyd-destun heriol.

"Mae prisiau'n ddrytach - mae rhai pethau wedi dyblu mewn pris," meddai Ruby. "Mae llawer mwy o gardotwyr ar y stryd nawr nag oedd yna erioed, felly yn amlwg mae tlodi ar gynydd." Bydd gwledydd fel Affganistan, lle roedd pobl eisoes yn ei chael hi'n anodd, yn teimlo'r straen o'r cynnydd mewn costau byw fwyaf. Er gwaethaf yr heriau y mae Affganistan yn eu hwynebu ar hyn o bryd, dyw BMS ddim wedi rhoi'r gorau i obaith o gyrraedd pobl yno. Mae cefnogwyr BMS wedi bod yn codi Affganistan i fyny mewn gweddi mor ffyddlon dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae eich gweddïau wir wedi agor drysau i waith BMS ddechrau eto. Cofiwch ddal ati i weddïo dros y genedl hon. "Gweddïwch dros heddwch, yn bennaf o fewn pobl," meddai Ruby. "Dwi'n meddwl bod 'na gymaint o straen a chymaint o ansicrwydd, mae angen i bobl gael heddwch o fewn eu hunain, iddyn nhw allu wneud beth gallan nhw. A gweddïwch dros y llywodraeth newydd, iddi allu helpu ei phobl mewn gwirionedd."

Geiriau gan Laura Durrant, gyda diolch i BMS

Croesawu Ffoaduriaid i Moldofa

Gwlad fechan yn ne-ddwyrain Ewrop yw Moldofa, sy'n ffinio ag Wcráin ar dair ochr ac yn gartref i 2.6 miliwn o bobl. Ond erbyn 23 Awst eleni, adroddodd y Cenhedloedd Unedig bod 585,614 o bobl ychwanegol wedi croesi'r ffin o Wcráin i'r wlad oherwydd y rhyfel. Ym mis Awst 2022, ymwelodd Helle Liht, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol EBF a Rachel Conway-Doel o BMS World Mission, â gwaith Bedyddwyr Moldofa ymhlith ffoaduriaid.

Penderfynodd arweinwyr Bedyddwyr dewr Moldofa i agor eu canolfan gynadledda - sydd heb ei chwblhau eto - i'r ffoaduriaid. Ar unwaith cafodd ei drawsnewid yn gartref i 500 o bobl. Digwyddodd gwyrtiau. Cysylltwyd y gwres a'r trydan yn gynt na'r disgwyl. Roedd pobl o bentrefi cyfagos yn gadael bwyd tu allan i'r drysau ac yn gadael heb ddweud gair. Gofynnodd un cymydog a oedd angen porc ar y ffoaduriaid a phan ddaeth ag e, roedd yn fochyn cyfan! Daeth eraill ag wyau, blawd, llysiau, bara a phasteioed. Penderfynodd cogydd oedd ar fin gadael y wlad oherwydd y rhyfel aros a gwirfoddoli i'r ganolfan. Doedd y rhan fwyaf o bobl yn y ganolfan erioed wedi bwyta bwyd mor flasus ag a goginiwyd gan y cogydd hwnnw. Mae seicolegwyr Cristnogol yn ymweld â'r gwersyll bob wythnos ac yn cynnig cefnogaeth i famau a phlant. Mae gwaith crefft hardd a grëwyd gan blant a mamau yn ystod sesiynau therapi yn addurno'r ystafelloedd. Mae'r ffoaduriaid wedi creu rota i helpu gweini bwyd, golchi llestri a chadw pethau'n daclus. Maen nhw wedi helpu i barhau ag adeiladu'r ganolfan. Mae un pensaer tirwedd wedi dylunio ardal gyda'r ffoaduriaid yn helpu i blannu lafant a phlanhigion eraill o'i gwmpas.

Mae hyn i gyd yn waith gwirfoddol; nid yw oriau gwaith yn cael eu cyfrif, adnoddau personol eu sbario, ac mae'r ffoaduriaid yn cael eu cofleidio gyda chariad. Ac mae bywydau'r dioddefwyr rhyfel wedi dechrau newid. Gwelsom blant yn chwarae pêl-droed, yn rhedeg o gwmpas ac yn chwerthin. Roedd mamau'n edrych yn hamddenol wrth siarad wrth y bwrdd cinio, â gwen ddiolchgar yn goleuo eu hwynebau.

Pan oedd arweinwyr y gwersyll yn adrodd y straeon hyn, daeth i'n meddyliau stori'r Hen Destament o Elijah a'r weddw a ddefnyddiodd yr ychydig o flawd ac olew oedd ganddi i bobi bara ar gyfer y proffwyd. Clywodd yr alwad, ymddiriedodd yn Nuw a doedd ei "jar o flawd byth yn cael ei ddisbyddu a doedd y jwg olew ddim yn rhedeg yn sych."

Ac ar draws...
Y Byd





Deng munud yng nghwmni...

Janet Matthews

Mae yna bobl o bob math yn ein heglwysi, a storïau o waith Duw yn cyfoethogi bywydau. Y tro hwn, dyma gwrdd ag aelod gweithgar yng Nghymanfa Brycheiniog....

Hyfryd i gwrdd â chi, Janet! Felly sut daethoch chi i ffydd a dod i Frycheiniog?

Wel, cefais fy magu ym Mryste fel Eglwyswraig mewn gwirionedd! Ac er i mi dderbyn bedydd esgob pan oeddwn yn fy arddegau, fe wnes i ddrifftio i ffwrdd. Ond wedyn dyma fi'n cwrdd â fy ngŵr, Terry, oedd yn dod o Flaenafon ac roedd ganddo awydd clir i fynd i'r weinidogaeth Fedyddiedig. Felly newidiodd hynny fy mywyd! Cyrhaeddom Sir Frycheiniog ar ddechrau'r wythdegau, gyda phump eglwys wledig yn ffurfio ardal weinidogaeth i Terry. Cefais fy waith llawn-amser fy hun fel gweithwraig gymdeithasol a swyddog datblygu cymunedol, ond fe wnes i gymryd rhan fawr mewn gwaith ysgol Sul a gwaith plant yn y capeli.

Ac rydych chi hefyd wedi cael rôl ehangach yn y weinidogaeth hefyd dros y blynyddoedd diwethaf?

Fe wnes i gyfrannu'n fawr i fywyd fy nghapel fy hun, lle dwi bellach yn ysgrifennydd, pan ddechreuon ni brosiect adeiladu ddegawd yn ôl. Mae ein capel ni mewn lle cyn diarffordd yn y mynyddoedd, ond mae'n lleoliad mor brydferth! Felly roedden ni eisiau troi stabl yr hen weinidog (!) i mewn i ofod y gellid ei ddefnyddio gan yr eglwys a'r gymuned.

Yna, rwy hefyd yn gwasanaethu gydag Ymddiriedolaeth Weinidogaeth Sir Frycheiniog, sydd wedi gwneud llawer o wahaniaeth yn y cylch hwn- ac yna wedi cael yr anrhydedd o wasanaethu fel Llywydd UBC!

Beth sydd wedi dy galonogi di ym mywyd yr eglwys?

Wel, roedd cael mynd i gynhadledd y Bedyddwyr Ewropeaidd pan o'n i'n Llywydd mor gyffrous i mi. Oherwydd bod pobl yno o bob man a dyma brofiad gwirioneddol o sylweddoli beth mae'n golygu bod ein capeli bach ni yn rhan o eglwys fyd-eang. Roedd cymaint o wahanol fynegiannau o'r eglwys, a lleisiau a chefnidiroedd. Roedd cwrdd â rhai o'r bobl hyn yn gwneud i mi sylweddoli'n iawn am y tro cyntaf y rhyddid sydd gennym i addoli, a sut rydyn ni wir yn cymryd hynny'n ganiataol. Dwi'n meddwl mai'r peth arall yw'r gefnogaeth ges i gan bobl yr eglwys pan fu farw Terry. Fe wnaeth hynny gymaint o wahaniaeth ac rwy'n credu bod gan eglwysi ran enfawr i'w chwarae ym mywydau pobl.

Diolch. Pa arwyddion o obaith wyt ti'n ei weld wrth edrych ymlaen?

Yn ein Cymanfa rydym yn edrych ymlaen yn aruthrol at gael Paul a Robyn Smethurst yn dod atom (gweler t.6) - rydym wir yn llawn gobaith am hynny! Bychan iawn ydym o ran nifer ac wedi ein gwasgaru o gwmpas dros ddwsin o gapeli gwledig. Ond rydyn ni'n teimlo bod Duw yn ein harwain i'r bennod newydd hon, sy'n gyffrous!

Diolch! A byddwn yn siwr o weddio drosoch chi a'r gwaith ym Mrycheiniog!

Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn hwn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater. Swyddfa gofrestredig:

Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

Ffôn: 0345 222 1514 [9-5 Llun - Gwener]

post@ubc.cymru

www.ubc.cymru

